# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

# Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON

# 12/7/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2000-0073 Casgliadau Celfyddydwaith Cymru/ Welsh Art Collections

10 Jul Raised by Nick Bourne

1 Subscriber

Owen John Thomas

Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi'r angen am fwy o orielau ar gyfer casgliadau celfyddydwaith Cymru er mwyn sicrhau bod mwy o gyfle i'r cyhoedd eu gweld, a chodi eu hymwybyddiaeth o'r trysorau Cenedlaethol hyn.

This Assembly supports the need for extra gallery provision to be made available for Welsh art collections in order to increase public access to and awareness of these National treasures.

## OPIN-2000-0071 Yr Hawl i Gofrestru fel Cymro/Cymraes/ The Right to Register Welsh

10 July Raised by Jenny Randerson, Michael German

3 Subscribers

Owen John Thomas

Carwyn Jones

John Griffiths

Mae'r Cynulliad o'r farn y dylid cynnwys y categori "Cymro/Cymraes" yn y cyfrifiad nesaf, yn yr un modd ag y caiff y term "Albanwr/Albanes" ei gynnwys.

The Assembly believes that, in the forthcoming census, the category of "Welsh" like "Scottish" should be included.

## OPIN-2000-0069 Diwrnod Cenedlaethol Owain Glyndr / Owain Glyndwr Welsh National Day

07 Jul 2000 Raised by Helen Mary Jones

5 Subscribers

Rhodri Glyn Thomas

Owen John Thomas

Ieuan Wyn Jones

Mick Bates
Dai Lloyd

Mae'r Cynulliad yn cyndabod cyfraniad hollbwysig y Tywysog Owain ap Gruffydd Fychan i hanes Cymru ac fel cydnabyddiaeth o'r cyfraniad hwnnw, gan gydnabod hefyd mai eleni yw 600mlwyddiant cyhoeddi Owain Glyndr yn Dywysog Cymru yng Nghlyndyfrwy, mae'r Cynulliad yn datgan, fel corff, ei fod o blaid neilltuo 16 Medi bob blwyddyn yn Ddiwrnod Owain Glyndr a'i fod yn barod i weithredu er sefydlu a chyhoeddi'r diwrnod hwnnw yn Ddiwrnod Cenedlaethol Swyddogol Cymru erbyn 16 Medi.

The Assembly recognises the all important contribution made by Prince Owain ap Gruffydd Fychan to Welsh history and as recognition of that contribution along with recognition of the fact that this year is the 600$^{th}$ anniversary of the date that Owain Glyndwr was proclaimed

Prince of Wales at Glyndyfrdwy, the Assembly declares, as a body, that it is in favour of designating 16th September annually as Dydd Owain Glyndwr and that it is prepared to act towards establishing and proclaiming the day an Official Welsh National Day by 16th September.

## OPIN-2000-0067 Rheilffordd Ucheldir Cymru/ Welsh Highland Railway

27 Jun 2000 Raised by Alun Pugh

1 Subscriber

Richard Edwards

*Cred y Cynulliad Cenedlaethol nad yw'r syniad o adeiladu rheilffordd i dwristiaid trwy Eryri yn cyd-fynd â'i statws fel Parc Cenedlaethol, ac mae'n ystyried y dylid bod wedi trosi sylfaen y traciau yn llwybr cerdded a seiclo hir.*

*The National Assembly believes the construction of a tourist railway through Snowdonia is incompatible with its National Park Status and considers the track bed should have been converted into a long distance walking and cycle route.*

## OPIN-2000-0064 Gwasanaeth Tân yng Nghymru/ Fire Service in Wales

21 Jun 2000 Raised by Ann Jones

30 Subscribers:

John Griffiths LLB
Phil Williams
Mick Bates
Kirsty Williams
Gareth Jones
Cynog Dafis
Alison Halford
Gwenda Thomas
Rhodri Glyn Thomas
Ieuan Wyn Jones
Richard Edwards

Glyn Davies
Karen Sinclair
Val Feld
Janet Davies
Alun Pugh
Delyth Evans
Christine Humphreys
Jenny Randerson
Nicholas Bourne LLB LLM
Lorraine Barrett
Brian Gibbons FRCGP
Huw Lewis
Janice Gregory
Ron Davies
Lynne Neagle
William Graham JP
Peter Black
Peter Rogers
Janet Ryder

*Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod y cynlluniau i gael dim ond un Canolfan Reoli ar gyfer y Gwasanaeth Tân yng Nghymru gyfan wedi eu llunio'n wael ac y gallent beryglu bywydau. Credwn fod y cynnig i greu un Canolfan Reoli yn gwbl annerbyniol, gan y byddai'n arwain at oedi wrth ddelio â galwadau ac anfon peiriannau tân ac yn golygu gwasanaeth llai effeithiol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Galwn ar yr Ysgrifennydd Cartref i wrthod y cynnig hwn ac i ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch unrhyw gynigion eraill sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Tân yng Nghymru.*

*This Assembly recognises that plans for a single Fire Service Control Centre covering the whole of Wales are ill-conceived and could place lives at risk. We believe that the proposal for a single Control Centre is totally unacceptable, will lead to delays in call handling and despatch of fire appliances and result in a reduced service for the public in Wales. We call on the Home Secretary to reject this proposal and to consult with the Assembly on any further proposals affecting the Fire Service in Wales.*

## OPIN-2000-0063 Ymgyrch yn erbyn Argae llisu/ Campaign against the llisu Dam

15 Jun 2000 Raised by Cynog Dafis, Ron Davies, Glyn Davies, Michael German OBE

14 Subscribers:

- Phil Williams
- Rhodri Glyn Thomas
- Gareth Jones
- Elin Jones
- Kirsty Williams
- Richard Edwards
- Jenny Randerson
- Nicholas Bourne LLB LLM
- Ann Jones
- Janet Ryder
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- William Graham JP
- Mick Bates
- Owen John Thomas MA

*Yng ngoleuni ei ymrwymiad i egwyddorion sylfaenol amddiffyn hawliau dynol, arddel amrywiaeth ddiwyllianol a gwarchod yr amgylchfyd, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn mynegi ei wrthwynebiad i godi Argae llisu yn rhanbarth Gwrdaidd Twrci, ac yn galw ar Lywodraeth Prydain i wrthod hybu'r cynllun adeiladu.*

*In light of its commitment to the fundamental principles of defending human rights, of recognising cultural diversity and of protecting the environment, this National Assembly declares its opposition to the building of the llisu Dam in the Kurdish region of Turkey, and calls upon the UK Government to refuse to support the construction project.*

## OPIN-2000-0059 Y Loteri Genedlaethol/ National Lottery

07 Jun 2000 Raised by Alison Halford

20 Subscribers:

- Phil Williams
- Rhodri Glyn Thomas
- Mick Bates
- Kirsty Williams
- Peter Black
- Val Feld
- Gareth Jones

- Richard Edwards
- Janice Gregory
- Ann Jones
- Helen Mary Jones
- Janet Davies
- Brian Gibbons FRCGP
- Janet Ryder
- Glyn Davies
- Gwenda Thomas
- John Griffiths LLB
- Ron Davies
- Jenny Randerson
- Owen John Thomas MA

*Mae'r Cynulliad hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i adolygu dyraniad arian y loteri i Gymru i sicrhau dosbarthiad tecach rhwng holl ranbarthau'r DU.*
*Mae hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau mwy o dryloywedd wrth Benodi Aelodau Bwrdd y Cyrff Dyrannu.*

*This Assembly calls on the UK Government to review the allocation of lottery funding for Wales to ensure a fairer distribution between all of the regions within the UK.*
*It further calls on the UK Government to ensure there is more transparency in the Appointment of Board Members on the Allocating Bodies.*

## OPIN-2000-0055 Y perygl posibl o niwed i glustiau plant oherwydd Hedfan Isel Milwrol / The potential risk of ear damage to children from Military Low Altitude Flying

19 May 2000 Raised by Kirsty Williams

12 Subscribers:

- Phil Williams
- Rhodri Glyn Thomas
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Elin Jones
- Mick Bates
- Cynog Dafis
- Christine Humphreys
- Val Feld
- Gareth Jones

Nicholas Bourne LLB LLM
Owen John Thomas MA
Michael German OBE

*Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ofyn i’r CMO ystyried cyhoeddi datganiad i rybuddio rhieni sy’n byw mewn ardaloedd gwledig ynghylch y posibilrwydd y gall awyrennau milwrol sy’n hedfan o dan 300m achosi niwed parhaol i glust fewnol eu plant. Mae’r Cynulliad yn nodi y gwaharddwyd Hedfan Isel Milwrol o dan 300m yn yr Almaen ym 1990, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Harmut Ising "Effeithiau swn hedfan isel milwrol ar glyw".*

*The National Assembly should ask the CMO to consider publishing a statement, warning parents in rural areas of Wales of the potential risk of permanent inner ear damage that Military Low Altitude Flying under 300m may have on children.*

*The National Assembly notes the report entitled "Auditory effects of military low-altitude flight noise" by Harmut Ising, led to Military Low Altitude Flying under 300m being banned in Germany in 1990.*

## OPIN-2000-0052 Tir Halogedig/ Contaminated land

17 May 2000 Raised by Geraint Davies, Jocelyn Davies, Pauline Jarman

7 Subscribers:

Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Mick Bates
Elin Jones
Gareth Jones
Owen John Thomas MA
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arfer ei bwerau i wneud gorchymyn cychwyn sy'n dod â Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i rym, sy'n cynnwys mesurau y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i adfer tir halogedig sy'n anharddu Cymru. Byddai'n strategaeth gynhwysfawr ar gyfer nodi, asesu ac adfer tir sydd wedi'i halogi yn y gorffennol, megis tir Phurnacite gynt yng Nghwm Cynon, ac yn aseinio rhwymedigaethau ar y sail mai'r "llygrwr sy'n talu". Mae gan y Cynulliad ddyletswydd i sicrhau bod y gorchymyn cychwyn hwn yn cael ei ddeddfu fel mater o flaenoriaeth er mwyn rhyddhau tir at ddibenion datblygu diwydiannol, tai a hamdden.*

*That the National Assembly for Wales exercises it's power to make a commencement order*

*bringing into force Part IIA of the Environmental Protection Act 1990 which contains measures that would require remediation of contaminated land which blights Wales. It would provide a coherent strategy for identifying, assessing and remediating historically contaminated land such as the former Phurnacite land in Cynon Valley and assigning liabilities on the basis of the "polluter pays" principle. The Assembly has a duty to ensure that this commencement order is enacted as a priority, to enable the release of land for industrial development, housing and leisure.*

## OPIN-2000-0049 Ymwybyddiaeth M.E. a Phobl Ifanc/M.E. Awareness and Young People

10 May 2000 Raised by Lorraine Barrett

8 Subscribers:

Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Karen Sinclair
Elin Jones
Christine Humphreys
Kirsty Williams
Mick Bates
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod yr her y mae pobl o bob oedran sy'n dioddef o M.E. yn ei wynebu yn ddyddiol ac mae'n cefnogi amcanion Wythnos Ymwybyddiaeth Genedlaethol M.E. (Mai 8 – 14). Yn benodol, mae pobl ifanc sydd ag M.E. yn wynebu ystod eang o anawsterau iechyd, anawsterau cymdeithasol ac anawsterau addysgol nad ydynt yn cael eu trin mewn dull sy'n gyson effeithiol ar draws Cymru. Mae'r Cynulliad o'r farn bod angen dybryd i wneud mwy o waith ymchwil i achosion M.E a'r dulliau o'i drin.*

*This Assembly acknowledges the challenges being faced on a daily basis by M.E. sufferers of all ages and supports the aims of this year's National M.E. Awareness Week (May 8th-14th). In particular young people with M.E. face a wide range of health, social and educational difficulties which are not being addressed in a consistently effective manner across Wales. This Assembly believes that there is a still a pressing need for more research into the causes and treatment of M.E.*

## OPIN-2000-0048 Codi TAW ar y Gymraeg/ Vat on Welsh Language

10 May 2000 Raised by Peter Black, Cynog Dafis, Ron Davies, Glyn Davies

23 Subscribers:

Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Elin Jones
Nicholas Bourne LLB LLM
Jonathan Morgan
John Griffiths LLB
Ieuan Wyn Jones
John Marek
Christine Humphreys
Gareth Jones
Val Feld
Kirsty Williams
Jenny Randerson
Jocelyn Davies
Brian Hancock
Gwenda Thomas
Alison Halford
Michael German OBE
Owen John Thomas MA
Alun Cairns
Mick Bates
Carwyn Jones LLB
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei arswydo o glywed bod Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi yn codi TAW ar ddysgu Cymraeg er na chodir tâl cyffelyb ar ddysgu Saesneg ac mae'n ystyried bod y polisi hwn yn bolisi sy'n gwahaniaethu yn erbyn y Gymraeg ac yn ei sarhau. Felly mae'n galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno sylwadau cryf ac uniongyrchol i Ganghellor y Trysorlys er mwyn diddymu'r polisi ar unwaith.*

*The National Assembly is appalled at the practice of H M Custom and Excise to charge VAT on Welsh language tuition whilst simultaneously exempting English language tuition and regards this policy as discriminatory and offensive and calls on the First Secretary to make direct and vigorous representations to the Chancellor of the Exchequer to rescind this policy forthwith.*

## OPIN-2000-0044 Mesur Terfysgaeth 2000/Terrorism Bill 2000

06 Apr 2000 Raised by Elin Jones

13 Subscribers:

- Phil Williams
- Brian Hancock
- Christine Humphreys
- Geraint Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Jocelyn Davies
- Cynog Dafis
- Helen Mary Jones
- Gareth Jones
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Janet Davies
- Owen John Thomas MA
- Michael German OBE

Mae'r Cynulliad yn datgan pryder ynglyn a 'Mesur Terfysgaeth 2000' a fydd yn berygl gwirioneddol i hawliau sifil a'r rhyddid i brotestio. Yn benodol, credir fod galluogi Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol (presennol ac i'r dyfodol) i wahardd mudiadau protest penodol ac i garcharu eu harweinwyr a'u cefnogwyr yn tanseilio democratiaeth iach ac eang. Cydnabyddir rol bwysig nifer o fudiadau protest yng Nghymru dros y blynyddoedd yn hyrwyddo achosion heddwch hawliau dynol, hawliau sifil a'r Gymraeg.

The Assembly states its concern regarding the ‘Terrorism Bill 2000’ which represents a real threat to the civil rights and the freedom to protest. Specifically, it is believed that enabling the Government of the United Kingdom (now and in the future) to ban specific protest groups and to imprison their leaders and supporters undermines a healthy and broad democracy. The important role played by a number of protest groups in Wales over the years in promoting the cause of peace, human rights, civil rights and the Welsh language is recognised.

## OPIN-2000-0038 Cymru Ddi-niwclear / Nuclear Free Wales

04 Apr 2000 Raised by Kirsty Williams

12 Subscribers:

- Phil Williams
- Elin Jones
- Val Feld
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

Karen Sinclair
John Griffiths LLB
Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas
Richard Edwards
Peter Black
Christine Humphreys
Mick Bates

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo statws Cymru fel ardal ddi-niwclear, sy'n dyddio'n ôl i Ddatganiad Clwyd 1982 a leisiodd gefnogaeth aruthrol y boblogaeth a'u pryder mawr dros ddyfodol gwareiddiad, gan nodi mai drwy gymryd y cam hwnnw yr oedd Cymru wedi rhoi arweiniad moesol i wledydd eraill Cymru a'r Byd.*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r ymrwymiad a'r dyheadau yn y penderfyniadau di-niwclear sydd wedi'u gwneud gan gynghorau ledled Cymru, o dan nawdd yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear, gan nodi bod hyn yn gwbl gytûn â'i ymrwymiad cyfansoddiadol ei hun i gynaliadwyedd amgylcheddol.*

*The National Assembly applauds Wales' status as a nuclear free zone, dating back to the 1982 Clwyd Declaration which expressed 'overwhelming support…by the populace' and 'their deep concern for the future of civilisation,' observing that 'By this action Wales has given a moral lead to the other countries of Europe and the World.'*

*The National Assembly for Wales supports both the commitment and the aspirations of nuclear free resolutions passed by councils throughout Wales, under the umbrella of the Nuclear Free Local Authorities, noting that this fully agrees with its own constitutional commitment to environmental sustainability*

## OPIN-2000-0037 Anghyfreithlondeb Trident / The Illegality of Trident

04 Apr 2000 Raised by Kirsty Williams

11 Subscribers:

Phil Williams
Elin Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Karen Sinclair
John Griffiths LLB
Geraint Davies

Rhodri Glyn Thomas
Richard Edwards
Peter Black
Christine Humphreys
Mick Bates

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar y Twrnai Cyffredinol i gychwyn ymchwiliad annibynnol ar fyrder er mwyn gweld a yw system arfau niwclear Trident yn gyfreithlon o dan y gyfraith ryngwladol, ar sail cytundebau y mae Prydain wedi'u llofnodi.**

**Ym mis Hydref 1999, yn Llys y Siryf yn Greenock cadarnhawyd amddifyniad ymgyrchwyr Trident Ploughshares bod y bygythiad gweithredol o du llongau tanfor Trident, a'u harfau niwclear, yn anghyfreithlon yn ôl Barn Ymgynghorol y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn yr Hâg ym 1996.**

**Os yw'r ffaith bod Trident yn anghyfreithlon o dan gyfraith yr Alban yn golygu ei bod yn ofynnol ei adleoli, ni ddylid barnu bod yr harbwr dwˆ r dwfn yn Aberdaugleddau yn ddewis posibl arall.**

**The National Assembly for Wales calls upon the Attorney-General to initiate an urgent independent inquiry to ascertain the legality of the Trident nuclear weapons system under international law, based on treaties to which Britain is signatory.**

**In October 1999, Greeenock Sherriff's Court upheld the defence of Trident Ploughshares campaigners that the active threat of Trident nuclear -armed**

## OPIN-2000-0034 Cydnabod Robert Owen 1771-1858/ Recognition of Robert Owen 1771-1858

03 Apr 2000 Raised by Mick Bates

15 Subscribers:

- Phil Williams
- Geraint Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Cynog Dafis
- Ieuan Wyn Jones
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Janet Davies
- Jenny Randerson
- Kirsty Williams
- Owen John Thomas MA
- Richard Edwards
- Michael German OBE
- Brian Gibbons FRCGP
- Ron Davies
- Christine Humphreys

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod gwaith dyngarol Robert Owen, diwygiwr cymdeithasol a sylfaenydd y Mudiad Cydweithredol a anwyd yn Sir Drefaldwyn. Rydym hefyd yn galw ar y Weithrediaeth Gymreig i gynnig ffyrdd gwreiddiol er mwyn coffáu gwaith Robert Owen a Chymry blaengar eraill o fewn bywyd cyhoeddus Cymru.*
*This Assembly recognises the humanitarian achievements of Robert Owen, Montgomeryshire-born social reformer and founder of the Co-operative Movement. Furthermore we call on the Welsh Executive to propose innivative ways in which the achievements of Robert Owen and other Welsh progressives can be commemorated within Welsh public life.*

## OPIN-2000-0032 Gwrthwynebu gorfodi ffioedd ychwanegol ar fyfyrwyr prifysgol/Opposition to top up fees being imposed on university students

29 Mar 2000 Raised by Christine Humphreys, Jenny Randerson

11 Subscribers:

Phil Williams
Gareth Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas
Cynog Dafis
Michael German OBE
Mick Bates
Owen John Thomas MA
Kirsty Williams
Peter Black

*Mae’r Cynulliad o’r farn:*
*1. y dylai addysg fod ar gael i bawb ac na ddylai fod yn seiliedig ar y gallu i dalu;*
*2. y byddai ffioedd ychwanegol yn creu system brifysgol ddwy haen ac yn atal myfyrwyr tlotach rhag ceisio cael mynediad;*
*3. ac mae’n mynegi pryder bod rhai sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn ystyried cyflwyno ffioedd ychwanegol.*
*Mae’r Cynulliad yn penderfynu:*
*Galw ar y Llywodraeth i sicrhau na chyflwynir ffioedd ychwanegol.*

*This Assembly believes:*
*1. that education should be accessible to all and should not be based on the ability to pay;*
*2. that top-up fees would create a two-tier university system and would strongly discourage access by poorer students;*
*3. expresses concern that some H.E. institutions in Wales may be considering the introduction of top-up fees.*
*This Assembly calls upon the Government to ensure that top-up fees are not introduced.*

## OPIN-2000-0028 Apêl Ambiwlans Awyr Cymru/Welsh Air Ambulance Appeal

14 Mar 2000 Raised by Ann Jones

25 Subscribers:

Phil Williams
Gwenda Thomas
Karen Sinclair
Geraint Davies
Glyn Davies

Elin Jones
Christine Chapman
Nicholas Bourne LLB LLM
Mick Bates
Peter Black
Gareth Jones
Christine Humphreys
Ron Davies
Rhodri Glyn Thomas
Lorraine Barrett
Cynog Dafis
Kirsty Williams
Jenny Randerson
John Griffiths LLB
Michael German OBE
Val Feld
Richard Edwards
Brian Gibbons FRCGP
Janice Gregory
David Melding

*Mae'r Cynulliad yn cefnogi Apêl Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am arian gan y cyhoedd yng Nghymru tuag at gostau gweithredu dau hofrennydd fel Ambiwlans Awyr. Gobeithiwn y bydd pobl Cymru'n ymateb yn frwdfrydig i'r Apêl Ambiwlans Awyr er mwyn i Ambiwlans Awyr cyntaf Cymru allu cychwyn ar ei waith erbyn yr hydref.*

*This Assembly supports the Wales Ambulance Service's Appeal for donations from the Welsh public to fund operating costs of the two helicopter Air Ambulances. We hope that the Air Ambulance Appeal will meet with an enthusiastic response from people in Wales in order that Wales first Air Ambulance can get off the ground by the Autumn.*

## Opin-2000-0021 Trwyddedu hadau a newidiwyd yn enetig a yng Nghymru/Licensing of genetically modified seeds in Wales

24 Feb 2000 Raised by Michael German

14 Subscribers:

Phil Williams
Geraint Davies
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Elin Jones

Rhodri Glyn Thomas
Peter Black
John Griffiths LLB
Cynog Dafis
Kirsty Williams
Gareth Jones
Ron Davies
Jenny Randerson
Mick Bates
Owen John Thomas MA

Mae'r Cynulliad hwn yn gwrthwynebu ychwanegu'r india-corn a newidiwyd yn enetig T25 at y Rhestr Hadau Genedlaethol yng Nghymru, ac yn credu y dylid ymgynghori a'r Comisiwn Ewropeaidd i weld sut y gelid gwahardd gwerthu a defnyddio'r had hyn yng Nghymru heb dramgwyddo rheolau'r Undeb Ewropeaidd.

This Assembly opposes the addition of T25 genetically modified maize to the National Seed List in Wales, and believes that the European Commission should be consulted to see how the sale and use of these seeds could be banned in Wales without breaching European Union rules.

## OPIN-2000-0018 Iawndal i Hemoffiligion/Compensation to Haemophiliacs

14 Feb 2000 Raised by Peter Black, Jenny Randerson, Kirsty Williams

9 Subscribers:

Phil Williams
Elin Jones
Christine Humphreys
Gareth Jones
Carwyn Jones LLB
Rhodri Glyn Thomas
Michael German OBE
Janet Ryder
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Mae'r Cynulliad hwn yn credu y dylid talu iawndal i hemoffiligion sydd wedi'u heintio â Hepatitis*

*C a HIV o ganlyniad i dderbyn cynnyrch gwaed heintiedig. Dylai'r iawndal hwn fod ar ben yr hyn a delir i'r rheini sydd wedi'u heintio â HIV oherwydd y cymhlethdod a'r dioddefaint ychwanegol a achosir i'r rheini sy'n dioddef o HIV sydd hefyd wedi'u heintio â Hepatitis C.*

*This Assembly believes that compensation should be granted to haemophiliacs who have been doubly infected with Hepatitis C and HIV as a result of receiving infected blood products. This compensation should be in addition to that granted for HIV infection because of the complication and further suffering caused to HIV sufferers who have also been infected with Hepatitis C.*

## OPIN-2000-0017 Achos Dau Caergrawnt/The Cambridge Two Case

08 Feb 2000 Raised by Michael German OBE

17 Subscribers:

Phil Williams
Christine Humphreys
Alison Halford
Helen Mary Jones
Gwenda Thomas
Ron Davies
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Karen Sinclair
Rhodri Glyn Thomas
Mick Bates
Peter Black
Kirsty Williams
Cynog Dafis
Val Feld
Gareth Jones
John Griffiths LLB
Jenny Randerson

*Mae’r Cynulliad hwn yn cydanbod y goblygiadau difrifol i’r rhai sy’n gweithio gyda’r digartref yng Nghymru yn deillio o garcharu Ruth Wyner a John Brock o Ganolfan Ddydd Wintercomfort Caergrawnt, ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Cartref i roi sylw ar frys i’r materion canylynol:*
*- Cynnal adolygiad llawn o achosion Ruth Wyner a John Brock a’r cefndir iddynt*
*- Cynnal adolygiad o’r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau fel na fydd achosion fel hwn yn codi yn y dyfodol*

*This Assembly recognises the serious implications for those working with the homeless in Wales of the imprisonment of Ruth Wyner and John Brock of Cambridge's Wintercomfort Day Centre, and calls on the Home Secretary to give urgent attention to the following matters:*
*- Conducting a full review of the cases of Ruth Wyner and John Brock and the background to them*
*- Conducting a review of the Misuse of Drugs Act so that cases such as this will not arise in the future*

## OPIN-2000-0014 Pwysigrwydd Rhandiroedd yng Nghymru/ The Value of allotments in Wales

01 Feb 2000 Raised by Jonathan Morgan

27 Subscribers:

Phil Williams
Brian Hancock
Elin Jones
Mick Bates
Cynog Dafis
John Griffiths LLB
Richard Edwards
Janet Davies
Alun Pugh
Rhodri Glyn Thomas
Kirsty Williams
Helen Mary Jones
Jenny Randerson
Peter Black
Janice Gregory
Lynne Neagle
Christine Humphreys
Christine Chapman
Owen John Thomas MA
Gareth Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Jocelyn Davies
Ron Davies
Nicholas Bourne LLB LLM
David Melding
Michael German OBE
Alun Cairns

Mae’r Cynulliad hwn yn:

- llwyr gydnabod rôl a budd rhandiroedd o safbwynt cymunedau lleol;

- cydnabod potensial rhandiroedd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, wrth helpu i hybu’r manteision corfforol a therapiwtig a ddaw yn sgil tyfu bwyd y gellir ei fforddio;

- gwerthfarwogi’r cyfraniad y mae rhandiroedd yn ei wneud wrth ddiogelu’r amgylchedd, amddiffyn bywyd gwyllt, cadw lleoedd agored, darparu adnoddau cynaliadwy, a’u rôl posibl wrth helpu i gydymffurfio ag Agenda 21;

- gwerthfawrogi gwaith Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandiroedd a Hamdden wrth helpu i gyflawni’r amcanion hyn;

- galw ar y Senedd i ddiwygio hen ddeddfwriaeth sy’n effeithio ar randiroedd.

This Assembly:

- Acknowledges fully the role of allotments in benefiting local communities:

- Recognises the current and future potential of allotments in helping to promote the physical and therapeutic benefits of growing affordable food;

- Appreciates the contribution allotments pay in protecting the environment, sheltering wildlife, conversing open spaces, providing sustainable resources, and their potential role in assisting Agenda 21 compliance;

- Values the work of National Society of Allotment & Leisure Gardeners in helping to achieve these objectives;

- Calls on Parliament to reform outdated legislation that affects allotments.

## OPIN-2000-0006 Lleihau dyledion gwledydd tlawd y byd/ Reducing Poor Countries Debts

27 Jan 2000 Raised by Michael German OBE, John Griffiths LLB, Jonathan Morgan, Rhodri Glyn Thomas

31 Subscribers:

Phil Williams

Brian Hancock
Janice Gregory
Brian Gibbons FRCGP
David Melding
Janet Davies
Geraint Davies
Pauline Jarman
Lorraine Barrett
Ron Davies
John Marek
Karen Sinclair
Kirsty Williams
Elin Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Janet Ryder
Owen John Thomas MA
Gareth Jones
Glyn Davies
Cynog Dafis
Jocelyn Davies
Jenny Randerson
Richard Edwards
Christine Chapman
Alison Halford
William Graham JP
Ieuan Wyn Jones
Mick Bates
Peter Black
Christine Humphreys
Val Feld

PLEASE NOTE PREVIOUS ALLOCATED REF NO 1999-0089

Codwyn/Raised 18 January 2000

Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu datganiad Canghellor y Trysorlys am ddileu dyledion y 41 o wledydd sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun y Gwledydd Tlawd Trwm eu Dyledion (GTTD), ac yn credu y dylai'r Canghellor gymryd y camau canlynol ychwanegol i leihau'r baich o ddyled ar bobl dlotaf y byd:

pwyso dros gynnwys yng nghynllun lleddfu dyledion y GTTD bob un o'r 52 o wledydd a enwyd gan Jiwbili 2000

galw ar y G7 i gynnal cyfarfod arbennig cyn gynted â phosibl eleni i drafod dyled

This Assembly welcomes the Chancellor of the Exchequer's announcement of debt cancellation for the 41 countries included in the Heavily Indebted Poor Countries (HIPC) initiative, and believes the Chancellor should take the following additional steps to ease the burden of debt on the world's poorest people:

press for all 52 countries named by Jubilee 2000 to be included in the HIPC debt-relief scheme

call on the G7 to hold a special meeting as early as possible this year to discuss debt

## OPIN-2000-0003 Ynni'r Dyfodol/Future Energy

27 Jan 2000 Raised by Mick Bates, Peter Black, Michael German OBE, Christine Humphreys, Jenny Randerson, Kirsty Williams

7 Subscribers:

Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Janet Ryder
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Cynog Dafis
Gareth Jones
Ron Davies

*PLEASE NOTE PREVIOUS ALLOCATED REF NO 1999-0086*
*Codwyn/Raised 17 January 2000*

*Yn croesawu menter Ynni'r Dyfodol yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, y cynllun achredu swyddogol cyntaf i hybu ynni o ffynonellau adnewyddadwy; yn nodi y caiff defnyddwyr o dan y cynllun yr hyder i ddewis opsiwn amgylcheddol ar gyfer eu cyflenwad trydan a fydd yn esgor ar gynhyrchu llai o garbon deuocsid; yn credu y gallai'r cynllun wneud cyfraniad sylweddol at darged y DTI bod 10% o'n trydan yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010 ac yn croesawu ymrwymiad diweddar y Canghellor i eithrio trydan a gynhyrchir o ffynonellau ynni adnewyddadwy newydd ac mewn pwerdai 'gwres ac ynni' cyfun 'o ansawdd da' rhag talu'r Ardoll Newid Hinsoddol.*

*Welcomes the Energy Saving Trust's Future Energy Initiative, the first official accreditation scheme to promote energy from renewable sources; notes that under the scheme consumers*

*will now be able to choose with confidence an environmental option for their electricity supply which will result in reduced emissions of carbon dioxide; believes that the scheme could make a considerable contribution towards the DTI's target of 10% electricity from renewable sources by 2010 and welcomes the Chancellor's recent commitment to exempt from the Climate Change Levy electricity generated from 'new' renewable sources of energy and in 'good quality' combined heat and power plant.*